Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Cynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2024

Gerddi Sophia, Caerdydd

10 Hydref 2024

# Mae ymchwil yn bwysig

## Rhaglen

**08:30** **Cofrestru, lluniaeth, arddangosfa a rhwydweithio**

09:30 Croeso
**Owain Clarke**, Gohebydd Iechyd, Newyddion BBC Cymru

09:35 Sesiwn lawn - Llywodraeth Cymru

09:45 Prif siaradwr
**Dr David Price**, Meddyg Ymgynghorol Anrhydeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

10:15 Sgyrsiau TED – Mae ymchwil yn bwysig

- **Dr Heidi Seage**, Prif Ddarlithydd mewn Seicoleg Iechyd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- **Liza Turton**, Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- **Dr Aimee Grant**, Uwch Ddarlithydd mewn Iechyd y Cyhoedd a Chymrawd Datblygu Gyrfa y Wellcome Trust, Prifysgol Abertawe

**10:45** **Lluniaeth, arddangosfa a rhwydweithio**

11:15 Sesiynau cyfochrog

**Gwella Iechyd Menywod: hyrwyddo tegwch rhwng y rhywiau a thegwch rhywedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.**

Hwylusydd:
**Michael Bowdery**, Pennaeth Rhaglenni, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Siaradwyr:
**Alice Witt**, Cymrawd Ymchwil a Pholisi, The George Institute for Global Health
**Dr Kate Womersley**, Cyd-Brif Ymchwilydd MESSAGE, The George Institute for Global Health

Mae menywod a merched yn cyfrif am ychydig dros 50% o'r boblogaeth yng Nghymru. Er gwaethaf hyn, nid yw gwasanaethau meddygaeth a gofal iechyd o reidrwydd wedi diwallu eu hanghenion, ac mae gwahaniaethau sylweddol wedi'u nodi mewn canlyniadau iechyd a gofal rhwng dynion a menywod.

Er bod ymchwil a gynlluniwyd yn wael wedi cyfrannu at y broblem hon, gall ymchwil sydd wedi'i chynllunio'n dda gyfrannu at ei datrys. Gall nodweddion rhyw a rhywedd wneud gwahaniaeth mawr i iechyd a salwch, gan ddylanwadu ar y cyflyrau y bydd person yn eu datblygu ac effeithiolrwydd, sgîl-effeithiau a chanlyniadau'r triniaethau maent yn eu cael. Felly, mae'n hanfodol bod ymchwil yn cydnabod ac yn rhoi cyfrif digonol am wahaniaethau rhyw a rhywedd perthnasol.

Er mwyn ysgogi newid cadarnhaol, mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cefnogi prosiect Medical Science Sex and Gender Equity (MESSAGE). Mae MESSAGE wedi dwyn ynghyd randdeiliaid o bob rhan o'r DU i gydlunio 'fframwaith polisi' i wella ymarfer cyllidwyr ymchwil a sefydliadau eraill a gwella integreiddio ystyriaethau rhyw a rhywedd wrth gynllunio ymchwil, casglu data, dadansoddi ac adrodd.

Bydd y sesiwn hon yn rhoi trosolwg o MESSAGE, gan egluro'r angen amdano, disgrifio'r fframwaith polisi a gydluniwyd, a nodi'r goblygiadau i gyllidwyr a'r manteision ar gyfer y ffordd y mae ymchwil yn ymdrin ag anghenion iechyd menywod yn benodol.

## Sut y gall ymchwil helpu i fynd i'r afael â'r heriau mawr ym maes gofal cymdeithasol i oedolion

Cadeirydd:
**Helen Grindell**, Pennaeth y Ganolfan Cefnogi a Chyflawni, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Siaradwyr:
**Alwyn Jones**, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
**Yr Athro Mark Llewellyn**, Cyfarwyddwr, Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ac Athro Polisi Iechyd a Gofal, Prifysgol De Cymru
**Rachel Scourfield**, Rheolwr Hwyluso Defnyddio Gwybodaeth, Gofal Cymdeithasol Cymru
**Yr Athro Paul Willis**, Cyfarwyddwr, Canolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion (CARE)

Mae gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol gan ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn hanfodol i wella ansawdd gofal. Mae'n dra hysbys bod ymchwil yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran gwella canlyniadau ac i fywydau pobl yn ein cymunedau.

Mae'r sector gofal cymdeithasol yn wynebu cyfnod anodd, gyda mwy o alw am wasanaethau, cyllid cyfyngedig ac argyfwng o ran y gweithlu. Fodd bynnag, mae'n gyfnod cyffrous i ymchwil gofal cymdeithasol gyda mwy o gyfleoedd ariannu ar gael a datblygiadau newydd ar y gweill.

Wedi'i chadeirio gan Helen Grindell, arweinydd y ddarpariaeth gwasanaethau cefnogi a chyflawni ar gyfer ymchwil gofal cymdeithasol ledled Cymru, bydd y sesiwn hon yn clywed gan gynrychiolwyr o'r ganolfan newydd ar gyfer ymchwil gofal cymdeithasol i oedolion, y byd academaidd, awdurdodau lleol a'r maes ymarfer, a fydd yn trafod rhai o'r heriau sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol i oedolion ar hyn o bryd a sut y gall ymchwil fod yn rhan o'r datrysiad drwy nodi ffyrdd newydd a gwell o ddarparu gofal cymdeithasol.

Bydd pob un o'r pedwar siaradwr yn siarad am 10 munud a bydd cyfle i holi a thrafod yn dilyn eu cyflwyniadau.

## Mae newid hinsawdd yn effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol, beth yw'r goblygiadau i ymchwilwyr, a chyllidwyr ymchwil?

Cadeirydd:
**Dr Josie Jackson**, Pennaeth Blaenoriaethu Ymchwil, Comisiynu a Hwyluso Defnyddio Gwybodaeth, Is-adran Ymchwil a Datblygu, Llywodraeth Cymru

Siaradwyr:
**Dr Sara MacBride Stewart,** Cyd-arweinydd, Rhwydwaith Ymchwil Iechyd y Blaned, Prifysgol Caerdydd
**Rebecca Masters**, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
**Samantha Turner**, Uwch Ymchwilydd, Prifysgol Abertawe

Mae argyfyngau deuol newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar ein hiechyd a'n lles. Er enghraifft, o ran defnyddio ynni, trychinebau naturiol, cynhyrchu a bwyta bwyd a systemau gofal iechyd eu hunain.

Mae'r argyfyngau hyn yn gwaethygu'r gwahaniaethau sy'n bodoli, gan effeithio'n anghymesur ar boblogaethau sy'n agored i niwed fel cymunedau incwm isel a grwpiau ymylol.

Yng Nghymru, mae rhai cymunedau eisoes yn gorfod ystyried y posibilrwydd o ddadleoli yn y dyfodol agos oherwydd llifogydd, erydu, codiad yn lefel y môr, a digwyddiadau tywydd eithafol. Fel cyllidwr ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, mae gan yr argyfyngau hyn oblygiadau eang i ni wrth nodi meysydd ymchwil sy'n flaenoriaeth, ac maent o ddiddordeb mawr o ran polisi.

Bydd y sesiwn hon yn cyflwyno'r pwnc ac yn tynnu sylw at ymchwil barhaus yn y maes hwn, gyda'r nod o ysgogi diddordeb trawsddisgyblaethol gan ymchwilwyr a defnyddwyr ymchwil.

**Partneriaethau: Sut y gall cydweithredu ar draws gwahanol sectorau ysgogi buddsoddiad mewn ymchwil a dod â mwy o fuddion i gleifion?**

Cadeirydd:
**Carolyn Donoghue**, Aelod Annibynnol (Prifysgolion), Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Y Panel:
**Louise Davies**, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Gwasanaethau Diogelu a Chymunedol, Rhondda Cynon Taf
**Yr Athro Liam Gray**, Athro Niwrolawdriniaeth Swyddogaethol a Chyfarwyddwr yr Uned Atgyweirio'r Ymennydd a Niwrotherapiwteg Mewngreuanol (BRAIN)
**Dr Paul Hole**, Rheolwr y Rhaglen/Pennaeth Ymchwil Dros Dro, Imophoron
**Dr Delyth Morgan**, Pennaeth Ymchwil Gwyddorau Bywyd a Phartneriaethau â Diwydiant, Llywodraeth Cymru
**Dr Leighton Phillips**, Cyfarwyddwr Ymchwil, Arloesi a Gwerth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Un o'r gwersi amlwg o COVID-19 oedd bod angen i ni gydweithio i arloesi a chydweithio i gyflawni.

Mae meithrin diwylliant o gydweithio traws-sector yn dod â llawer o fuddion hanfodol gan gynnwys dysgu ar y cyd ac arbenigedd cyfunol, yn ogystal â meithrin capasiti a gallu ym maes ymchwil. Gall ffurfio cysylltiadau cryf arwain at allbynnau ymchwil sy'n cyflymu buddion i'r cyhoedd yn y pen draw. Ond mae datblygu partneriaethau ar bapur yn ffyrdd o gydweithio sy'n cyflawni canlyniadau go iawn yn her sy'n wynebu llawer o sefydliadau.

Bydd y sesiwn hon yn clywed gan uwch arweinwyr o'r GIG, y byd academaidd, llywodraeth leol a diwydiant yng Nghymru am y rôl maent yn ei chwarae wrth feithrin cydweithio ystyrlon sy'n dangos effaith ymchwil ac yn ymdrin â rhai o'r heriau iechyd a gofal cymdeithasol mwyaf sy'n ein hwynebu.

Bydd y panel yn cael ei gadeirio gan Carolyn Donoghue, Aelod Annibynnol o'r Bwrdd a hyrwyddwr ymchwil ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Bydd pob un o'r pum siaradwr

**12:15** **Cinio, arddangosfa a rhwydweithio**

13:15 **Panel iechyd menywod**

**Cadeirydd:** Owain Clarke

Panel:
**Yr Athro Amy Brown**, Athro Iechyd Cyhoeddus Mamau a Phlant, Prifysgol Abertawe
**Dr Ceryl Davies**, Economegydd Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Bangor
**Janine Hale**, Pennaeth Iechyd Menywod ac Iechyd Plant, Llywodraeth Cymru
**Dr Helen Munro**, Arweinydd Clinigol, Rhwydwaith Clinigol Strategol Iechyd Menywod, Gweithrediaeth y GIG
**Dr Janet Valentine**, Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesi a Pholisi Ymchwil, Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (ABPI)

13:55 Sgyrsiau TED – Mae ymchwil yn bwysig

- **Dr Marcos Del Pozo Banos**, Uwch Ddarlithydd, Prifysgol Abertawe
- **Rachel Joseph**, Myfyrwraig PhD, Prifysgol Caerdydd
- **Dr Mayara Silveira Bianchim**, RSwyddog Ymchwil ac Arweinydd Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, Prifysgol Bangor

14:25 **Sophie Pierce** – stori bersonol

14:55 Sesiwn lawn
**Yr Athro Kieran Walshe**, Director, Health and Care Research Wales

15:15 **Gwobrau**
Cyflwynir gan yr Athro Kieran Walshe

15:30 **Cloi**
Owain Clarke